Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
ENNILL LLWYR YW ENNILL IAITH




# Llyfryn Opsiynau Blwyddyn 9

2024

| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|
| Cyflwyniad | 3-4 |
| **PYNCIAU CRAIDD - GORFODOL** | |
| Cymraeg Iaith a Llenyddiaeth | 5 |
| Saesneg Iaith a Llenyddiaeth | 6-7 |
| Mathemateg | 8 |
| Gwyddoniaeth | 9 |
| BAC / THS: Canolradd a Sylfaenol | 10 |
| **PWNC TGAU LEFEL 2 (Arholiadau a gwaith cwrs)** | |
| Addysg Gorfforol | 11 |
| Astudiaethau Crefyddol | 12 |
| Astudiaethau’r Cyfryngau | 13 |
| Celf a Dylunio / Celf a Thecstilau | 14 |
| Cerddoriaeth | 15 |
| Cyfrifiadureg | 16 |
| Daearyddiaeth | 17 |
| Drama | 18 |
| Dylunio a Thechnoleg– Dylunio Cynnyrch | 19 |
| Electroneg | 20 |
| Hanes | 21 |
| Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant | 22 |
| Ieithoedd Tramor Modern - Ffrangeg | 23 |
| **LEFEL 2 CYFWERTH Â ThGAU (Galwedigaethol – Arholiadau a Gwaith Cwrs)** | |
| Adeiladu | 24 |
| Busnes Adwerthu | 25 |
| Arweinyddiaeth drwy Chwaraeon | 26 |
| Lletygarwch ac Arlwyo | 27 |
| Technoleg Gwybodaeth | 28 |
| Twristiaeth | 29 |
| **PYNCIAU LEFEL 2 (Galwedigaethol - Di-arholiad)** | |
| Tystysgrif Level 2 Dysgu yn yr Awyr Agored | 30 |
| **TYSTYSGRIF LEFEL 2** | |
| Tystysgrif Mewn Sgiliau Trin Gwallt a Harddwch a Tirlunio ac Eco-adeiladu | 31-32 |

# DECHRAU YSTYRIED EICH DEWISIADAU YN 14 OED.

Dyma'ch dewis pwysig cyntaf fel disgybl ysgol uwchradd, sef dewis y pynciau y byddwch yn eu hastudio ym Mlynyddoedd 10 ac 11.

Mae dewis y pynciau sydd yn eich siwtio chi yn holl bwysig:

a) achos rydych yn fwy tebygol o fwynhau a llwyddo yn y pynciau sy'n gweddu i'ch diddordebau, eich sgiliau a'ch cryfderau personol chi, a

b) gall eich dewis yn 14+ ddylanwadu ar y cyrsiau a'r yrfa y byddwch yn ei dilyn yn y dyfodol.

## Cyrsiau blynyddoedd 10 ac 11

Mae'r pynciau / cyrsiau sydd ar gynnig yn cael eu rhannu yn ddau gategori : PYNCIAU CRAIDD (mae'n rhaid i chi astudio rhain) a PHYNCIAU SYLFAEN (medrwch ddewis rhwng rhain).

Dyma'r PYNCIAU CRAIDD :

Cymraeg, Saesneg, Mathemateg, Gwyddoniaeth. Bydd pawb yn astudio ar gyfer BAC Cymraeg hefyd.  Mae Addysg Gorfforol hefyd yn orfodol, ond nid oes arholiad yn y gwersi statudol yma.

Bydd y CYRSIAU SYLFAEN yn cynnwys rhain. (Fe fydd y rhestr derfynol yn dibynnu ar y niferoedd o ddisgyblion yn eich blwyddyn sy’n dewis pob pwnc.)
Addysg Gorfforol, Astudiaethau Crefyddol, Astudiaethau'r Cyfryngau, Celf a Dylunio/Celf a Thecstilau, Cerddoriaeth, Cyfrifiadureg, Daearyddiaeth, Drama, Dylunio Technoleg (Dylunio Cynnyrch), Electroneg, Hanes, Iechyd a Gofal, Ffrangeg, Adeiladu, Busnes Adwerthu, Arweinyddiaeth drwy Chwaraeon, Lletygarwch ac Arlwyo, Technoleg Gwybodaeth, Twristiaeth, Dysgu yn yr awyr Agored, Trin Gwallt.

Yn y llyfryn yma ac yn ystod ein Noson Ddewisiadau, cewch mwy o wybodaeth am y pynciau hyn i gyd.

## Llwybrau Dysgu 14-19

Mae'r cwricwlwm 14-19 yng Nghymru wedi'i drefnu ar ffurf Llwybrau Dysgu personol sy'n caniatáu i bob disgybl wneud y mwyaf o'i dalentau ac i gyrraedd ei botensial llawn yn ystod y cyfnod cyffroes yma. Ym Mlwyddyn 10 mae modd i chi ddewis cymysgedd o bynciau academaidd a galwedigaethol gan gynnwys cwricwlwm Cymhwyster Bagloriaeth Cymru (Y BAC), ac fe fydd rhai o'r pynciau yn cael eu darparu gan Golegau lleol. Fe fydd eich llwybr personol yn caniatâi i chi gymryd y cam nesaf yn 16 oed gan ddilyn cyrsiau yn y 6ed dosbarth, coleg neu ar hyfforddiant yn y gweithle. Fel rhan o'r Llwybrau 14-19 fe fyddwch yn cael cefnogaeth unigol gan eich Tiwtor Personol a fydd yn Anogwr Dysgu i chi. Wrth weithio'n agos gyda'ch Anogwr Dysgu fe fyddwch yn gallu cyrraedd eich potensial llawn ac fe fydd unrhyw broblemau'n cael eu hadnabod a'u datrys yn gynnar.

***PWYSIG*** - Fe fydd pob disgybl yn gwneud 'dewis agored' yn y lle cyntaf ac yn dewis 3 phwnc sylfaen. Yna fe fyddwn yn edrych yn ofalus ar ddewisiadau pawb, ac ar ôl dadansoddi manwl fe fyddwn yn ffurfio'r colofnau. Dyma'r ffordd orau i sicrhau bod y mwyafrif o'r flwyddyn yn cael y nifer uchaf o ddewisiadau cyntaf.

Fe fyddwn yn dweud wrthoch chi beth yw'r colofnau mewn da bryd ac fe fydd proses cynghori yn dechrau ar gyfer y nifer fach o ddisgyblion hynny sy'n gorfod addasu eu dewisiadau.

# TGAU Cymraeg Iaith a TGAU Llenyddiaeth Gymraeg

**Bydd y disgyblion yn dilyn <u>dau</u> gwrs o fewn y gwersi Cymraeg a bydd y gwaith ar gyfer y ddau gwrs yn ymestyn dros gyfnod o ddwy flynedd.**

## Cymraeg (Iaith)

Bydd y cwrs Cymraeg yn rhoi cyfle i'r disgyblion ehangu a datblygu ymhellach eu sgiliau llafar, darllen ac ysgrifennu fel eu bod yn gallu defnyddio'r Gymraeg yn effeithiol ac yn hyderus, mewn ystod o sefyllfaoedd ac ar amrywiaeth o bynciau. Ceisir meithrin ynddynt agwedd gadarnhaol tuag at yr iaith a sicrhau eu bod yn cael mwynhad wrth drin, trafod a chreu yn y Gymraeg.

Mae tair uned i'r cynllun asesu:

- **Uned 1- Asesiad Diarholiad- Llafar** **30%**
- **Uned 2- Asesiad Allanol- Arholiad Darllen ac Ysgrifennu** **35%**
- **Uned 3- Asesiad Allanol- Arholiad Darllen ac Ysgrifennu** **35%**

Bydd angen gweithio'n gyson ar hyd y ddwy flynedd i baratoi ar gyfer yr asesiad llafar a'r arholiadau.

## Llenyddiaeth Gymraeg

Bydd y cwrs llenyddiaeth yn rhoi cyfle i'r disgyblion fwynhau ac ymateb i amrywiaeth o ddeunydd llenyddol a chyfryngol.

Astudir un nofel a chasgliad o farddoniaeth ar gyfer yr arholiad ysgrifenedig. Yn ogystal â hyn, rhaid cyflwyno dwy dasg ar gyfer y gwaith cwrs ysgrifenedig, un yn ymateb i gyfrol o ryddiaith ac un arall yn ymateb i ddrama. Trafodir ffilm yn yr asesiad llafar allanol.

**Barddoniaeth:** *(Cerddi gan feirdd amrywiol)*

**Nofel:** *(Un o'r canlynol- Yn y Gwaed / Llyfr Glas Nebo / Y Stafell Ddirgel / O Ran / Ac Yna Clywodd Sŵn y Môr / I ble'r aeth Haul y Bore? / Dim / Llinyn Trôns / Bachgen yn y Môr / Diffodd y Sêr)*

**Ffilm:** *(Un o'r canlynol- Dihirod Dyfed / Mynydd Grug (Te yn y Grug) / Tylluan Wen)*

**Asesu:** Mae pedrair uned i'r cynllun asesu:

- **Uned 1- Barddoniaeth- Arholiad Ysgrifennu** **25%**
- **Uned 2- Nofel- Arholiad Ysgrifennu** **25%**
- **Uned 3- Llunyddiaeth- Arholiad Llafar** **25%**
- **Uned 4- Asesiad Diarholiad- Tasgau Ysgrifenedig** **25%**

# TGAU Saesneg Iaith

*Mae'r cymhwyster TGAU Iaith bellach yn llinol ac yn ddi-haen sydd yn golygu bod POB disgybl yn eistedd yr arholiadau ar ddiwedd flwyddyn 11.*

**Asesiad Di-Arholiad: Llafar (20%)**

**Uned 1: Tasgau Llafar (RHAID I'R TASGAU YMA CAEL EU RECORDIO)**

**Cyflwyniad Unigol (10%)** Cyflwyniad unigol gan gynnwys gwaith ymchwil, yn seiliedig ar themâu a gosodwyd gan CBAC.

**Trafodaeth grŵp (10%)** Trafodaeth grŵp wedi ei seilio ar ddeunydd sbardun CBAC (rhaid cyflawni hyn ym mlwyddyn 11).

**Arholiadau: Darllen ac Ysgrifennu (80%) (ar ddiwedd flwyddyn 11)**

**Uned 2: Darllen ac Ysgrifennu (Disgrifiadol, Creadigol, Esboniadol)**
**2 awr (40%)**

**Adran A: Darllen (20%)** Cwestiynau darllen a deall yn seiliedig ar gyfres o destunau llenyddol/ esboniadol/ disgrifiadol.

**Adran B: Ysgrifennu (20%)** Un dasg yn seiliedig ar gywiro a golygu darn ysgrifenedig. Dilynwyd gan un dasg ysgrifennu (naill ai disgrifiad, naratif neu esboniad).

**Uned 3: Darllen ac Ysgrifennu (Dadlau, Dwyn Perswâd, Cyfarwyddiadau)**
**2 awr (40%)**

**Adran A: Darllen (20%)** Cwestiynau darllen a deall yn seiliedig ar gyfres o destunau anllenyddol.

**Adran B: Ysgrifennu (20%)** DWY dasg ysgrifennu. Bydd un o rain yn seiliedig ar ffurfio dadl a'r llall yn ffocysu ar ddwyn perswâd.



# <u>TGAU Llenyddiaeth Saesneg</u>

*Mae'r cymhwyster TGAU Llenyddiaeth yn unedol ac yn cynnwys haenau (uwch a sylfaenol). Bydd y cymhwyster yn dechrau ym mlwyddyn 10 gyda chyfle i ail-sefyll unedau ym mlwyddyn 11 (lle bo angen).*

**Arholiadau (75%)**

**Uned 1 (2 awr) 35%**

i. 'Of Mice and Men' (John Steinbeck) neu 'To Kill a Mockingbird' (Harper Lee)
ii. Dadansoddi a chymharu barddoniaeth annhysbys

**Uned 2 (2 awr) 40% (Mai 2025)**

i. Naill ai 'A Christmas Carol' (Charles Dickens) neu 'Heroes' (Robert Cormier)
ii. Naill ai 'A View from the Bridge' (Arthur Miller) neu 'Blood Brothers' (Willy Russell) neu 'An Inspector Calls' (JB Priestley)

**Asesiad Di-arholiad (25%)**


**Uned 3 (gall y tasgau yma cael eu cyflawni dros y cwrs TGAU)**

**Adran A: Shakespeare (2 awr) 12.5%**

Traethawd yn ffocysu ar thema yn seiliedig ar un o ddramâu Shakespeare. Rhaid cwblhau'r asesiniad o dan amodau.

**Adran B: Barddoniaeth o Gymru (2 awr) 12.5%**

Traethawd yn ffocysu ar astudiaeth o 15 o gerddi o ddetholiad *Poetry 1900-2000: One Hundred Poets from Wales (golygwyd gan Meic Stephens)*. Bydd y traethawd yn cymharu o leiaf DWY gerdd. Unwaith eto, rhaid cwblhau'r aseiniad o fewn y dosbarth o dan amodau.



# TGAU Mathemateg

Mae yna ddau gymhwyster TGAU Mathemateg newydd –

**1) TGAU Mathemateg – Rhifedd**

Bydd y cwrs yma yn adeiladu ar rhifedd o Gyfnod Allweddol 3 ac yn amlygu'r fathemateg y bydd angen ar ddysgwyr yn eu bywydau bob dydd a byd gwaith.

**2) TGAU Mathemateg.**

Bydd y cwrs yma yn cynnwys agweddau ar fathemateg y bydd eu hangen ar gyfer symud ymlaen i astudiaethau gwyddonol neu dechnegol, neu astudiaethau mathemategol pellach.

**Strwythur y cwrs**

Tair haen o gofrestru – uwch, canolradd a sylfaenol.


| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Uwch | A* | A | B | C | | | | |
| Canolradd | | | B | C | D | E | | |
| Sylfaenol | | | | | D | E | F | G |

**Asesiad**
Ar gyfer TGAU Mathemateg Rhifedd a TGAU Mathemateg, bydd dau arholiad yr un. Nid oes unrhyw waith cwrs.

| | |
|---|---|
| Uned 1 : Heb gyfrifiannell. | 50% o'r cymhwyster. |
| Uned 2 : Caniateir cyfrifiannell. | 50% o'r cymhwyster. |

**Cyfleoedd Asesu**
Bydd yr arholiadau yn cael eu eistedd Haf Blwyddyn 11 gyda'r posibilrwydd o rai ymgeiswyr cymryd arholiadau Rhifedd ym mis Tachwedd.

**Lefel Mynediad – Tystysgrif mewn Mathemateg**
Mae nifer o'r cyrsiau Mathemateg sydd ar gael ar hyn o bryd yn anaddas ar gyfer rhai o'r disgyblion. Felly, fe gynlluniwyd y gwaith arbennig yma er mwyn darparu sylfaen fathemategol sy'n briodol ar gyfer bywyd bob dydd a gofynion gwaith. Bydd y gwaith llafar, ymarferol a phrofion yn cyfrif am 79% o'r marciau a'r arholiad am 21%



# TGAU Gwyddoniaeth



Bydd rhaid i bob disgybl gwblhau un o'r ddau gwrs TGAU isod:

**1. Gwyddoniaeth Driphlyg (Bioleg, Cemeg, Ffiseg)**
**(90 % Arholiadau, 10 % Asesiad dan Rheolaeth)**

Dyfernir tri gradd unigol TGAU ar gyfer Bioleg, Cemeg a Ffiseg – mae'r cwrs yma ar gyfer disgyblion sydd a gwir ddiddordeb mewn Gwyddoniaeth ac eisiau astudio mwy o dopigau na'r cwrs Dwbl isod.

***Mi fydd pob disgybl nad sy'n dewis Gwyddoniaeth Triphlyg fel opsiwn yn cwblhau un o'r ddau gwrs TGAU dwbl isod. Bydd y penderfyniad am ba gwrs yn cael ei wneud gan y Gyfadran.***

**2. Gwyddoniaeth (Dwyradd)**
**(90 % Arholiadau, 10 % Asesiad dan Rheolaeth)**

Mae'r cwrs yn cynnwys modiwlau o Fioleg, Cemeg a Ffiseg – fe gewch cymhwyster sy'n werth dau TGAU Annibynol wrth astudio'r cwrs. Mae'n gweithredu fel sail addas ar gyfer astudio Gwyddoniaeth naill ai ar lefel UG neu Safon Uwch.

**Pam astudio Gwyddoniaeth?**
Pwnc diddorol, ymarferol a chyffrous yw Gwyddonaieth – un sy'n datblygu eich sgiliau meddwl dros eich hunan. Gwyddoniaeth yw'r pwnc sy'n ceisio esbonio'r byd o'n hamgylch; o fewn y pwnc ceir:

- Cemeg – sy'n astudio adweithiau rhwng gwahanol gemegau
- Bioleg – sy'n astudio sut mae pethau byw'n gweithio
- Ffiseg – sy'n esbonio sut mae pethau fel trydan, grymoedd a goleuni'n gweithio.

Mae pob un o'r uchod â'i gogwydd arbennig – ond maen nhw i gyd yn ceisio gwenud arbrofion i ddatblygu syniadau a phrofi rhagfynegiadau.

**Gwyddoniaeth a gyrfaoedd**
Fel un o'r pynciau craidd, mae cyflogwr o bob math â diddordeb yn eich perfformiad yn y pwnc.


- Gwyddonydd - biolegwr, micro fiolegwr, ffisegwr, seryddwr, cemegydd, ecolegydd, gofodwr a llu o feysydd eraill!
- Meddygol – Ffisiotherapydd, nyrsio, gwyddonydd mewn labordy, ysbyty, meddyg, llawfeddyg, feryllydd ayyb.
- Perianneg – mecanyddol, geneteg, sifil, trydanol, plymio ayyb
- Cyffredinol – athro/awes, cyfrifydd, TGCh

# <u>Bagloriaeth Cymru</u>
# <u>Tystysgrif Her Sgiliau</u>

**Mae'r cymhwyster yn orfodol i bob disgybl ym mlynyddoedd 10 ac 11. Ei nod yw helpu dysgwyr i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer addysg uwch, byd y gwaith a bywyd.**

***Prif ddiben Bagloriaeth Cymru yw datblygu ac asesu sgiliau hanfodol fel:***

- Llythrennedd
- Rhifedd
- Llythrennedd Digidol
- Meddwl yn feirniadol
- Datrys problemau
- Cynllunio a threfnu
- Creadigrwydd ac arloesi
- Effeithiolrwydd personol.




**Cewch gyfle i gyflawni'r BAC ochr yn ochr a'ch cyrsiau TGAU. I gyflawni Bagloriaeth Cymru bydd angen cwblhau:**

1. **Tystysgrif yr Her Sgiliau**

- **<u>Prosiect Unigol</u>**
  Aseiniad annibynnol yw hon yn seiliedig ar waith ymchwil ar bwnc a gaiff ei ddewis ar eich cyfer. Byddwch yn dangos y wybodaeth a'r sgiliau ar gyfer llunio ymchwiliad ysgrifenedig neu arteffact/cynnyrch a ategir gan ymchwil ysgrifenedig.

- **<u>Her Menter a Chyflogadwyedd</u>**
  Er mwyn i chi ddatblygu sgiliau a phriodweddau menter a'ch gwneud yn fwy cyflogadwy.

- **<u>Her Dinasyddiaeth Fyd-eang</u>**
  Er mwyn i chi ddeall mater sy'n effeithio ar yr holl fyd ac ymateb yn briodol iddo.

- **<u>Her Cymunedol</u>**
  Er mwyn i chi bennu, datblygu a chymryd rhan mewn cyfleoedd a fydd o fudd i'r gymuned.

2. **<u>TGAU</u>**
   TGAU Saesneg Iaith neu Cymraeg Iaith a TGAU Mathemateg – Rhifedd

3. **<u>Cymwysterau ategol</u>**
   Er enghraifft, cymwysterau TGAU eraill neu gymwysterau galwedigaethol.

   **Sut bydd y cwrs yn cael ei asesu?**
   Nid oes arholiadau. Byddwch yn cadw cofnod o'ch gwaith ar gyfer pob rhan o'r cymhwyster yn yr ysgol; gan gynnwys eich Prosiect Unigol a'r portffolio o Heriau. Bydd gwahanol raddau yn cael eu dyfarnu, gan sicrhau bod eich gwaith caled a pherfformiad uchel yn cael eu gwobrwyo ac yn cael cydnabyddiaeth well gan sefydliadau addysg uwch a chyflogwyr. Cewch eich cefnogi drwy gydol y cwrs gan Fentor personol.

**Dwy Haen: Sylfaenol / Cenedlaethol**

# TGAU Addysg Gorfforol

**Pam astudio Addysg Gorfforol?**

Bwriad y cwrs yw annog disgyblion i fwynhau ac astudio Addysg Gorfforol yn bwrpasol. Mae'n gwrs cyffrous sy'n gosod sialens i bob disgybl i wella ei b/pherfformiad a dealltwriaeth yn y maes. Gofynnir i chi ddangos brwdfrydedd ac ymroddiad llawn tuag at y gwaith ymarferol a pharodrwydd i gymryd cyfrifoldeb i weithio'n annibynnol er mwyn gwella.

**Cynnwys Ysgrifenedig - 50%**
Mae cynnwys y pwnc yn canolbwyntio ar bum maes allweddol:

**1.** Iechyd, ymarfer (*training*) ac ymarfer corff (*exercise*)
**2.** Ffisioleg ymarfer corff *(exercise)*
**3.** Dadansoddi symud
**4.** Seicoleg chwaraeon a gweithgaredd corfforol
**5.** Materion diwylliannol gymdeithasol mewn chwaraeon a gweithgaredd corfforol.

Arholiad ysgrifenedig – 2 awr

**Cynnwys Ymarferol - 50%**
Asesir dysgwyr mewn **tri** gweithgaredd gwahanol yn rôl perfformiwr mewn o leiaf **un** gamp ar gyfer unigolyn, **un** gamp ar gyfer tîm ac **un** arall.
Bydd un gweithgaredd yn brif weithgaredd fydd â rhaglen
ffitrwydd bersonol yn gysylltiedig â'r gweithgaredd.

**Addysg Gorfforol a Gyrfaoedd**
Bydd astudio'r cwrs yn helpu i'ch paratoi am amrywiaeth eang o swyddi sy'n ymwneud ag Addysg Gorfforol a chwaraeon e.e. gweithio mewn /rheoli canolfan hamdden neu glwb ffitrwydd ; hyfforddwr ffitrwydd personol ; athro ; yr heddlu ; gwasanaeth carcharau ; cynghorau chwaraeon ; dietegydd ; ffisiotherapydd ; analeiddiwr ; hyfforddwr ffitrwydd ; seicolegydd chwaraeon neu feiomecanydd mewn clybiau proffesiynol neu yn y sector gyhoeddus ; hyfforddwr gweithgareddau awyr agored neu hyd yn oed rheolwr mewn clwb proffesiynol!



# TGAU Astudiaethau Crefyddol

**Wrth astudio Astudiaethau Crefyddol byddwch yn**:

- Ymchwilio i gwestiynau sylfaenol fel "pam mae drygioni'n bodoli?" a "beth yw pwrpas bywyd?"
- Astudio testunau sy'n esbonio'r amrywiaeth bywyd a chrefydd yn y byd modern.
- Gwella sgiliau meddwl athronyddol a'r gallu i feddwl yn greadigol.
- Deall materion moesegol a chrefyddol cyfoes fel moeseg feddygol a ffwndamentaliaeth grefyddol.
- Datblygu sgiliau cyfathrebu, dysgu sut i fynegi eich safbwyntiau'n glir a chynyddu eich hunanhyder.
- Mae cwestiynau crefyddol yn aml yn athronyddol iawn a gallent wella'r sgiliau meddwl beirniadol sydd hangen ar gyfer athroniaeth.
- Mae Astudiaethau Crefyddol yn hyrwyddo meddwl a dadansoddi dyfnach o faterion ehangach fel "A yw'r angen am fod dwyfol yn rhan gynhenid o fodau dynol?"
- Mae Astudiaethau Crefyddol yn aml yn gofyn cwestiynau 'pam' a gall roi safbwynt pwysig wrth ystyried y cwestiynau 'pam' a ofynnir yn aml mewn gwyddoniaeth.

**Swyddi**: Heddlu; Cyfreithiwr; Meddyg; Athro; Marchnata; Actor a llawer mwy.

**Cymhwyster**: Di-haen A* - G

**Dim** gwaith cwrs**; Dim** asesiadau dan reolaeth.

**Asesiad:**

| UNED | TEITL | PWYSIAD ASESU | DULL ASESU |
|---|---|---|---|
| 1 | Crefydd a Themâu Athronyddol (Blwyddyn 10) | 50% | Arholiad ysgrifenedig 2 awr. |
| 2 | Crefydd a Themâu Moesegol (Blwyddyn 11) | 50% | Arholiad ysgrifenedig 2 awr. |

**UNED 1: Crefydd a Themâu Athronyddol**
Rhan A: Astudiaeth o dwy gred/ dysgeidiaeth grefyddol am gredoau, dysgeidiaethau ac arferion craidd.
Rhan B: Astudiaeth o ddwy thema athronyddol o bersbectif dwy grefydd 1) Bywyd a Marwolaeth 2) Daioni a Drygioni
**UNED 2: Crefydd a Themâu Moesegol**
Rhan A: Astudiaeth o dwy gred/ dysgeidiaeth grefyddol am gredoau, dysgeidiaethau ac arferion craidd.
Rhan B: Astudiaeth o ddwy thema moesegol o bersbectif dwy grefydd

1) Perthnasoedd 2) Hawliau Dynol.

**Pam astudio'r pwnc?**
- ✓ Mae cyflogwyr yn ystyried Astudiaethau Crefyddol yn gymhwyster arbennig o dda.
- ✓ Mae yn dy baratoi ar gyfer gweithio gyda phobl o ddiwylliannau a chredoau gwahanol.
- ✓ Mae'n dy annog i wrando ar safbwyntiau pobl eraill a thrafod gwahanol bynciau moesol.
- ✓ Mae'n agor dy feddwl ac yn ehangu gorwelion.

# TGAU Astudiaethau'r Cyfryngau

***...Teledu?...Papur newydd a Newyddion...Eisiau gwybod mwy?***

***Nodau'r cwrs:***

- annog disgyblion i ddatblygu agwedd feirniadol ac ymchwiliadol i'r cyfryngau
- ystyried testunau amrywiol, cynulleidfaoedd a'r diwydiant cyfryngol
- meithrin sgiliau cyfathrebu perthnasol i astudiaeth o'r cyfryngau
- datblygu sgiliau technegol perthnasol i fyd y cyfryngau

***Cynnwys y cwrs:***
Mae'r cyfryngau'n elfen ganolog o fywyd modern Mae ganddynt rôl allweddol mewn darparu gwybodaeth am y byd, creu cyfleoedd i fasnach a chynnig pleser ac adloniant ar ffurfiau cyfryngol. Byddwch yn astudio amrywiaeth eang o gyfryngau gwahanol ac yn edrych ar gymhlethdodau'r berthynas rhyngddoch chi fel derbynydd/gwyliwr o gynnyrch cyfryngol ar lefel byd eang a'r cwmnïau sy'n eu cynhyrchu. Trwy wneud amrywiaeth o dasgau ysgrifenedig a phrosiectau ymarferol megis cynhyrchu ffilmiau, safwe a chylchgronau byddwch yn ystyried:

- sut mae testunau cyfryngol yn cael eu cynhyrchu er mwyn denu'r gynulleidfa, trwy astudio ystod eang o enghreifftiau megis papurau newydd, comigau, ffilmiau, teledu gemau cyfrifiadurol…... (nid oes testunau gosod);
- sut mae diwydiannau'r cyfryngau yn cael eu trefnu a'u rheoli, marchnata a hyrwyddo o fewn y cyfryngau, a materion yn ymwneud â phreifatrwydd yng nghyd-destun bywyd sêr;
- dylanwad y cyfryngau ar gynulleidfaoedd / defnyddwyr.

**Sut mae'r cwrs yn cael ei asesu ?**

| | | |
|---|---|---|
| **Arholiad Ysgrifenedig** | **60%** | Uned 1: Ymchwilio i'r Cyfryngau Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 30 munud 30% o'r cymhwyster<br>Uned 2: Deall Teledu a Ffilm Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 30 munud 30% o'r cymhwyster |
| **Asesiad Di-Arholiad** | **40%** | Ymchwil a chynllunio unigol, i'w greu mewn ymateb i friff a osodir gan CBAC, ac yn defnyddio gwybodaeth a dealltwriaeth o gysyniadau allweddol.<br>Dadansoddiad myfyriol unigol o'r cynhyrchiad. |

**Un haen i bawb**

# TGAU Celf a Dylunio

# Neu TGAU Dylunio Tecstilau

Ydych chi'n mwynhau gwaith Celf? Cwrs hyblyg a phleserus iawn yw'r cwrs Celf T.G.A.U. nad yw'n cynnwys arholiad ysgrifenedig! Bydd pob unigolyn yn cael y cyfle i ddarganfod ei gryfderau a'i ddiddordebau ei hun wrth weithio trwy'r uned waith. Mae'r pwyslais ar luniadu, dylunio a chynhyrchu gwaith gwreiddiol.

**Nodau'r cwrs**
Mae'r cwrs yn annog archwilio, arbrofi a mynegi fel ymateb i ymwybyddiaeth synhwyraidd o'r byd. Anogir pob unigolyn i ddatblygu ffurf bersonol ar fynegiant. Byddant hefyd yn datblygu amrywiaeth o gyfryngau ac offer. Trwy ymweld ag arddangosfeydd celf mewn orielau lleol byddant yn datblygu sgiliau gwerthfawrogi a beirniadu Celf ac yn sgìl hynny, yn mynegi ac yn llunio barn am eu gwaith eu hunain gan ddefnyddio geirfa gysylltiedig. Bydd yr ymgeiswyr hefyd yn meithrin yr ymwybyddiaeth a'r gallu i werthfawrogi Celf ac arteffactau eu diwylliannau eu hunain a diwylliannau eraill.

**Gyrfaoedd mewn Celf**
Gallech weithio o'ch stiwdio eich hun fel Arlunydd; dylunydd graffeg; dylunydd ffasiwn, arlunydd cerameg; arlunydd print; athro/athrawes; darlithydd; gweithio mewn orielau Celf neu yn feirniad Celf.

**Gwaith cwrs 60%**
Bydd y gwaith cwrs yn cynnwys un uned o waith parhaus a wnaed drwy gydol y cyfnod astudio sy'n darparu portffolio personol o bob ymgeisydd.

**Arholiad terfynol 40%**
Bydd yr arholiad terfynol yn dechrau ym mis Ionawr yn y flwyddyn arholi. Yn ystod yr arholiad, sy'n cael ei amseru a'i arolygu, mae'n rhaid i'r ymgeisydd gynhyrchu ei waith yn annibynnol a digymorth. Mae'n rhaid i'r ymgeiswyr ddewis UN cwestiwn o'r detholiad a ddarperir. Caniateir chwe wythnos ar gyfer yr YMCHWIL a'r ASTUDIAETHAU PARATOADOL a neilltuir 10 awr ar gyfer y PRAWF DAN ORUWCHWYLIAETH.

**Cyfleoedd ar y cwrs**
Bydd yr ymgeiswyr yn cael cyfle i weithio ym mhob un o'r meysydd canlynol: lluniadu, peintio, colaj, printio graffigol, printio ffabrig, addurno dodrefn, cerameg, gwydr, gwaith tri dimensiwn, gwneud gemwaith a cherflunwaith.

Bydd yr ymgeiswyr yn cwblhau uned o waith cwrs yn seiliedig ar arlunydd, dylunydd neu grefftwr neu ddiwylliant Celf neu fudiad penodol mewn hanes. Byddant hefyd yn cyfrannu at waith dosbarth drwy baratoi cyfran o waith gartref, a byddant yn cael eu hannog i gymryd rhan mewn gweithdai a ddarperir gan grefftwyr lleol ar ôl ysgol a dros y penwythnos.

# TGAU Cerddoriaeth

**Pam astudio TGAU Cerddoriaeth?**

Yn y dyfodol, Creadigrwydd fydd un o'r sgiliau pwysicaf y mae'r galw mwyaf amdano yn y gwaith (Fforwm Economaidd y Byd). Mae hyn yn golygu bod astudio pynciau creadigol, fel Cerddoriaeth, yn dod yn fwyfwy pwysig a pherthnasol i bobl ifanc er mwyn rhoi'r cyfle i chi lwyddo – beth bynnag yw eich uchelgeisiau!

**Pa sgiliau fyddaf i'n eu datblygu?**

Bydd eich sgiliau ymarferol yn cael eu mireinio a byddwch chi'n dangos creadigrwydd, myfyrdod a gwydnwch, yn ogystal â datblygu hyder, sgiliau cyflwyno, sgiliau dadansoddi a datrys problemau.

**Beth allwn i ei wneud nesaf?**

Ar wahan i astudio Cerddoriaeth mewn Coleg Cerdd, neu mewn Prifysgolion, mae disgyblion wedi mynd ymlaen i wahanol Brifysgolion i astudio amrywiaeth o bynciau yn cynnwys Gwyddoniaeth, Addysg, Cyfrifiadureg, Ieithoedd, Daearyddiaeth, Bioleg y Môr, Mathemateg, Meddygaeth, Gwleidyddiaeth, Seicoleg, a Milfeddygaeth.

**Mae cwrs TGAU Cerddoriaeth CBAC yn cynnwys tair uned:**

**Uned 1** **Perfformio 35%** **Asesir gan yr athro**

Lleiafswm o ddau ddarn, sy'n para cyfanswm o 4 munud.

- Rhaid i un darn fod yn ensemble (darn grŵp) sy'n para o leiaf munud
- Un darn sy'n cysylltu â Maes Astudio (gweler isod) Gallwch ddefnyddio unrhyw offeryn neu lais, neu ddewis opsiwn technoleg.

**Uned 2** **Cyfansoddi 35%** **Asesir gan yr athro**

Dau ddarn: Un mewn ymateb i friff a osodwyd gan CBAC – mae dewis o 4 bob blwyddyn. Byddwch chi hefyd yn ysgrifennu gwerthusiad o'r darn hwn.
Mae'r **ail** gyfansoddiad yn gyfansoddiad rhydd - y dysgwyr yn gosod eu briff eu hunain ar ei gyfer.

**Uned 3** **Arfarnu 30%** **Arholiad a asesir yn allanol**

Arholiad gwrando: 8 cwestiwn, 2 ar bob maes astudio:

**MA 1:** Ffurfiau a Dyfeisiau Cerddorol

**MA 2:** Cerddoriaeth ar gyfer Ensemble

**MA 3:** Cerddoriaeth Ffilm

**MA 4:** Cerddoriaeth Boblogaidd

# <u>TGAU Cyfrifiadureg</u>

**Pam dewis TGAU Cyfrifiadureg?**


Defnyddir cyfrifiaduron yn eang ym mhob agwedd ar fusnes, diwydiant, llywodraeth, addysg, hamdden a’r cartref. Yn yr oes dechnolegol hon, mae astudio cyfrifiadureg, ac yn enwedig y modd y defnyddir cyfrifiaduron wrth ddatrys amrywiaeth o broblemau, yn hanfodol i ddysgwyr. Mae’n galw am ddisgyblaeth resymegol a chreadigedd llawn dychymyg wrth ddethol a dylunio algorithmau ac wrth ysgrifennu, profi a dadfygio rhaglenni; mae’n dibynnu ar ddeall rheolau iaith ar lefel sylfaenol; mae’n annog ymwybyddiaeth o’r modd y rheolir ac y trefnir systemau cyfrifiadurol; mae’n ymestyn gorwelion dysgwyr y tu hwnt i amgylchedd yr ysgol neu’r coleg i werthfawrogi effeithiau cyfrifiadureg ar gymdeithas ac unigolion. Lluniwyd TGAU Cyfrifiadureg CBAC i roi dealltwriaeth o gysyniadau sylfaenol cyfrifiadureg a chwmpas eang o gyfleoedd astudio.

**Pa Sgiliau byddaf yn eu datblygu?**

Mae TGAU Cyfrifiaureg CBAC yn annog dysgwyr i:

- deall a chymhwyso egwyddorion sylfaenol a chysyniadau cyfrifiadureg, gan gynnwys; haniaeth, dadelfeniad, rhesymeg, algorithmau, a chynrychioliad data
- dadansoddi problemau yn nhermau cyfrifiadurol drwy brofiad ymarferol o ddatrys problemau o’r fath, gan gynnwys dylunio, ysgrifennu a dadfygio rhaglenni i wneud hynny
- meddwl yn greadigol, arloesol, dadansoddol, rhesymegol a beirniadol
- deall y cydrannau sy’n ffurfio systemau digidol, a sut maen nhw’n cyfathrebu gyda’i gilydd a gyda systemau eraill
- deall effeithiau technoleg ddigidol ar yr unigolyn a’r gymdeithas ehangach
- cymhwyso sgiliau mathemategol sy’n berthnasol i gyfrifiadureg.


**Asesu**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **1** |  | **Deall Cyfrifiadureg**<br>105 munud<br>Arholiad<br>Ysgrifenedig<br>50% | Mae’r uned hon yn ymchwilio i galedwedd, gweithrediadau rhesymegol, cyfathrebu, cynrychioli data a mathau data, systemau gweithredu, egwyddorion rhaglennu, peirianneg meddalwedd, llunio rhaglenni, diogelwch a rheoli data ac effeithiau technoleg ddigidol ar y gymdeithas ehangach. |
| **2** |  | **Meddwl Cyfrifiannol a Rhaglennu**<br>2 awr<br>Arholiad ar-sgrin<br>30% | Mae’r uned hon yn ymchwilio i ddatrys problemau, algorithmau a lluniadau rhaglennu, ieithoedd rhaglennu, strwythurau data a mathau data a diogelwch a dilysiad. |
| **3** |  | **Datblygu Meddalwedd**<br>20 awr<br>Asesiad di-arholiad<br>20% | Mae’r uned hon yn ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr lunio datrysiad wedi’i raglennu i broblem. Rhaid iddynt ddadansoddi’r broblem, llunio datrysiad i’r broblem, datblygu’r datrysiad terfynol wedi’i raglennu, profi’r datrysiad a rhoi awgrymiadau ar gyfer datblygu’r datrysiad ymhellach. |

# PAM DEWIS DAEARYDDIAETH?

"*Geography is the subject which holds the key to our future*" *Michael Palin*

Mae Daearyddiaeth yn destun sy'n ennyn eich diddordeb mewn materion byd eang o bob math...




**Wrth ddewis Daearyddiaeth fel un o'ch cyrsiau TGAU byddwch yn dysgu ...**

… i ddeall yr amgylchedd...
… i ddod i adnabod eich byd trwy waith maes ...
… i wneud penderfyniadau doeth sy'n ystyried materion amgylcheddol a datblygiad yn gytbwys...
… sut i ddatblygu ystod eang o sgiliau ...
… i ddefnyddio cyfrifiaduron a thechnoleg eraill ...
… i ddeall diwylliannau gwahanol ...
… i w'bod lle mae llefydd ar y Ddaear ...

Y mae Daearyddiaeth yn ddefnyddiol ym mhob maes neu yrfa ond yn enwedig yn y canlynol: tirfesureg, Daeareg, heddlu, addysg, hamdden, yr amgylchedd, peirianneg, y gyfraith, bancio, swyddi gweinyddol.

Os yr ydych yn bwriadu astudio Daearyddiaeth byddwch yn derbyn y manteision canlynol:-
Byddwch yn cael y cyfle i **ymweld â lleoedd** arbennig i ddysgu am **batrymau a phrosesau daearyddol.** Byddwch yn deall ac yn hyderus wrth **fynegi barn** ar faterion lleol, cenedlaethol yn ogystal â rhai byd eang. Byddwch yn parhau i **ddatblygu sgiliau** megis dadansoddi mapiau, ffotograffau diagramau a graffiau, a'r gallu i lunio barn bersonol gytbwys a'i esbonio'n eglur i eraill. Byddwch yn ymwybodol o'r **hyn sy'n digwydd o'ch cwmpas** ar lefel leol ac yn fwy eang, ac yn sylweddoli fod gan bobl gwahanol farn amrywiol a bod yna **sawl ffordd o ddatrys problemau.**

**Y Cwrs: Dyma flas ar unedau TGAU Daearyddiaeth:-**

| Unedau | Cynnwys | Asesu |
|---|---|---|
| **Uned 1** | Tirweddau Ffisegol a Dynol Newidiol. | Arholiad ysgrifenedig, 1 awr 30 munud (40% o'r cymhwyster) |
| **Uned 2** | Materion Amgylcheddol a Datblygiad | Arholiad ysgrifenedig, 1 awr 30 munud (40% o'r cymhwyster) |
| **Uned 3** | Asesiadau di-arholiad (yn seiliedig ar waith maes) | Arholiad ysgrifenedig, 2 awr 30 munud (20% o'r cymhwyster) |




**Uned 1- 40%** (Wedi'i recordio'n fewnol a'i gymedroli'n allanol)
Mae Uned Un yn ymwneud â dyfeisio a pherfformio neu dylunio ochr dechengol  eich drama eich hun yn seiliedig yn seiliedig naill ai ar waith ymarferydd theatr neu genre mewn ymateb i ysgogiad a bennir gan CBAC. Byddwch hefyd yn cwblhau cofnod carreg filltir sy'n dilyn y broses ddyfeisio, a'r gwerthusiad yn dilyn eich perfformiad. Byddwch yn gweithio mewn grwpiau a fydd yn cynnwys rhwng dau a phum perfformiwr a hyd at 4 dylunydd.

**Uned 2 - 20%** (Wedi'i asesu gan arholwr allanol sy'n ymweld â'r ysgol)
Mae Uned 2 yn canolbwyntio ar eich sgiliau perfformio neu dylunio yn unig. Byddwch yn gweithio mewn grwpiau a fydd yn cynnwys rhwng dau a phum perfformiwr a hyd at 4 dylunydd o ddisgyblion eraill o'ch dosbarth ac yn cael dau ddetholiad o sgript i'w berfformio.

**Uned 3 - 40%** (Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 30 munud)



Adran A
Fel rhan o'r cwrs mae angen i chi astudio testun penodol. Rydym yn astudio 'Wyneb' gan Benjamin Zephaniah', sy'n dilyn bywyd bachgen 16 mlwydd oed a'r hyn sy'n digwydd iddo wedi damwain erchyll. Byddwch yn archwilio'r testun hwn trwy lygaid cyfarwyddwr a dylunydd yn ogystal â pherfformiwr.
Adran B
Adolygiad o Theatr Fyw. Un cwestiwn, o ddewis o ddau, sy'n gofyn am ddadansoddi a gwerthuso un cynhyrchiad theatr byw a welir yn ystod y cwrs.

**Sgiliau Trawsgwricwlaidd y byddwch yn dysgu:**
Hyder, Siarad Cyhoeddus, Cyfathrebu, Empathi, Ffocws, Creadigrwydd, Datrys Problemau, Cydweithredu, Menter, Rheoli Amser

**Gyrfaoedd Posib**
Mae prifysgolion a chyflogwyr yn chwilio am gefndir eang o bynciau. Mae swyddi yn y dyfodol yn cynnwys: actor, therapydd drama, rheolwr llwyfan, cynllunydd goleuo, technegydd sain, athro, dylunio gwisgoedd ac ati. Does dim rhaid eisiau mynd ymlaen i astudio Drama er mwyn mwynhau'r pwnc fel opsiwn TGAU.







# TGAU Dylunio a Thechnoleg – Dylunio Cynnyrch

Mae astudio Dylunio a Thechnoleg yn paratoi disgyblion ar gyfer bywyd mewn cymdeithas a ddaeth yn ddibynnol ar ddatblygiadau mewn technoleg. Mae'r maes llafur yn seiliedig ar y farn mai gweithgaredd ymarferol yw Dylunio a Thechnoleg, ac mai datblygu gallu'r ymgeiswyr i **ddatrys problemau cynllunio** trwy ddefnyddio **gwybodaeth** a sgiliau a ddysgwyd yn y pwnc yw'r nod. Fel rhan sylfaenol o'r cwrs bydd ymgeiswyr yn **dadansoddi sefyllfaoedd, dylunio a gwneud cynhyrchion, a gwerthuso dyluniadau**. Cynigir cyfle i weithio gydag amrywiaeth o ddeunyddiau gwrthiannol. Yn ystod y cwrs datblygir gallu **creadigol ac arloesol** y disgyblion. Mae hwn yn gwrs **diddorol, cyffrous** sydd yn datblygu **sgiliau unigryw** defnyddiol am fywyd.

## Yn ystod y cwrs bydd disgyblion yn:



- dysgu amrywiaeth o **sgiliau graffigol**
- dylunio amrywiaeth o syniadau i **ddatrys problemau**
- **dylunio a gwneud gwrthrychau** gan ddefnyddio deunyddiau gwrthiannol
- **ymchwilio** a chasglu gwybodaeth
- dysgu sut i ddylunio mewn ffurf 2D a 3D wrth ddatblygu dyluniadau
- cyflwyno syniadau trwy ddefnyddio cyfrifiadur(**CAD**)
- dysgu sut i ddefnyddio **peiriannau ac offer llaw**
- defnyddio offer 'cynhyrchu trwy gymorth cyfrifiadur'(**CAM**)
- creu **modelau a phrototeipiau**
- astudio **dylunwyr** enwog
- dysgu am ddulliau cynhyrchu gwahanol
- gwerthuso a **dadansoddi cynnyrch**
- **gwerthuso** gwaith eu hunain ac eraill
- cael profiad o wahanol swyddogaethau o fewn y diwydiant dylunio; cwsmer, dyluniwr, gwneuthurwr, rheolwr, defnyddiwr ayb

## CRYNODEB O'R ASESIAD

| | | |
|---|---|---|
| Gwaith cwrs | 50% | Un prosiect sylweddol (35 awr yn ystod gwersi) |
| Arholiad | 50% | Un arholiad (2 awr) |

**<u>Gyrfaoedd posib:</u>**

Pensaernïaeth, Hysbysebu, Dylunio cynnyrch, Dylunio celfi, Dylunio diwydiannol, Dylunio mewnol, Celfyddydau digidol, Dyluniwr graffigol, Technoleg CAD/CAM, Athro DT a nifer o bosibiliadau eraill.



# TGAU Electroneg

**Nodau'r cwrs**

Lluniwyd y cwrs i alluogi disgyblion i feithrin medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth o electroneg fel eu bod yn aelodau hyderus o fyd technolegol. Bydd disgyblion yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o ddylunio cylchedau ac yna'n adeiladu a phrofi'r cynlluniau. Bydd cyfle hefyd i ddatblygu sgiliau i ymwneud â rhifedd, datrys problemau a diogelwch/ymarferion da. Dylai ymgeiswyr fod â dealltwriaeth dda o Wyddoniaeth a Mathemateg.

**Cynnwys y cwrs**

Rhennir y cwrs yn 3 uned.

**Modiwl E1** **Darganfod Electroneg**
Systemau electroneg, is-systemau, cysyniad cylched, cylchedau synhwyro, cydrannau mewn cylchedau synhwyro, dylunio cylchedau synhwyro, cylchedau allbynnu, cylchedau switsio, cymhwyso deuodau, systemau rhesymeg gyfuniadol, mewnbynnau, cydrannau, cysyniadau cylchedau

**Modiwl E2** **Systemau Digidol**
Cylchedau amseru, systemau dilyniannol, cylchedau rhyngwynebu, cyfathrebu analog, rhesymeg gyfuniadol, rhesymeg ddilynol, systemau rheoli rhaglenadwy


**Modiwl E3** **Dylunio & Gwireddu System Electroneg**
Cynllunio, prototeip, profi a gwerthuso, profi systemau, cynhyrchu, gwerthusiad, dogfennaeth, diogelwch/ymarfer da, adroddiad ar ddatblygiad y dasg.

**Sut mae'r cwrs yn cael ei asesu?**

**Arholiad Modiwl E1 (40%)** Papur 1 awr a hanner i'w gwblhau ym Mlwyddyn 11 (Mehefin)


**Arholiad Modiwl E2 (40%)** Papur 1 awr a hanner i'w gwblhau ym Mlwyddyn 11 (Mehefin)

**Gwaith Cwrs Prosiect (20%)** Ymgeisydd/athro yn cynllunio tasg dylunio. Ymgeisydd yn gwireddu ac yn ysgrifennu adroddiad ar ddatblygiad y dasg, Mae'r asesiad yn cael ei gyflawni yn gyfan gwbwl o dan oruchwyliaeth yr athro.



# TGAU Hanes

**Pam dewis Hanes?**
Mae'r sgiliau byddwch yn eu datblygu drwy'r cwrs Hanes yn rhai gwerthfawr ar gyfer ystod eang o yrfaoedd a swyddi. Dyma rai o'r sgiliau fyddwch yn eu datblygu:-




**Hanes a gyrfa yn y dyfodol.**

Y mae hanes yn ddefnyddiol ar gyfer nifer o yrfaoedd gwahanol, gan gynnwys y gyfraith, yr heddlu, athro, hanesydd, newyddiaduraeth, y cyfryngau, arwerthwr, archeolegydd, cynllunydd gwisgoedd, llyfrgellydd, gwaith mewn amgueddfa a'r gwasanaeth sifil.

**Y Cwrs**: Dyma flas ar unedau TGAU Hanes:

| | Unedau | Cynnwys (i'w gadarnhau) | Asesu |
|---|---|---|---|
| Blwyddyn 10 | Uned 1 | **Astudiaeth Manwl (Hanes Cymru a Lloegr)**<br>Testun: Dirwasgiad, Rhyfel ac Adferiad, 1930-1951 | Arholiad ysgrifenedig:<br>1 awr<br>(25% o'r cymhwyster) |
| | Uned 2 | **Astudiaethau Manwl (Hanes UDA)**<br>Testun: Gwlad o Wahaniaethau,1910-1929 | Arholiad ysgrifenedig:<br>1 awr<br>(25% o'r cymhwyster) |
| Blwyddyn 11 | Uned 3 | **Astudiaeth Thematig**<br>Testun: Newidiadau ym maes Trosedd a Chosb, tua 1500 hyd heddiw | Arholiad ysgrifenedig:<br>1 awr 15 munud<br>(30% o'r cymhwyster) |
| | Uned 4 | **Gweithio fel hanesydd**<br>2 asesiad yn seiliedig ar waith ffynonellau | Asesiad di-arholiad<br>(20% o'r cymhwyster) |

# <u>TGAU Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant</u>

**<u>Pam astudio  Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant?</u>**
Mae'r myfyrwyr yn;

- Medru dilyn ei diddordeb yn y meysydd iechyd a gofal, blynyddoedd cynnar, henoed ac unigolion ag anghenion penodol.
- Cwblhau mwy o waith cwrs nag arholiadau ysgrifenedig.
- Datblygu ei gwerthoedd ac egwyddorion gofal.
- Ymchwilio'r gwahanol fathau o wasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru.
- Ymchwilio ffactorau sy'n effeithio ar iechyd a llesiant trwy gydol cylchred bywyd.

<u>Y Cwrs</u>

| Unedau | Asesiadau |
|---|---|
| **Uned 1 – Twf, datblygiad a llesiant dynol.** | **Arholiad ysgrifenedig. 1awr 30 munud.** |
| **Uned 2 – Hybu a chynnal iechyd a llesiant.** | **Asesiad di-arholiad. Tua 25 awr.** |


Os ydych am astudio Iechyd a Gofal Cymdeithasol neu Gofal Plant yn addysg uwch neu weithio yn un o'r meysydd isod mae'r cwrs Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant i chi!

- Chiropodist
- Parafeddyg
- Nyrs / Bydwraig
- Cynghorwr
- Gofalwr
- Athrawes
- Therapydd
- Seicolegydd
- Gweithiwr Cymdeithasol
- Gweithiwr Ieuenctid



# Ieithoedd Tramor Modern
# TGAU Ffrangeg

**Pam astudio Ffrangeg i TGAU?**




Ffrainc yw'r wlad sy'n derbyn y nifer fwyaf o dwristiaid bob blwyddyn – mae'n croesawu saith deg pump miliwn o dwristiaid yn flynyddol! Siaredir Ffrangeg mewn dros pedwar deg tri o wledydd ar draws y byd. A wyddoch mai Ffrangeg yw'r iaith a ddysgir mwyaf ar ôl Saesneg? Mae Ffrangeg yn ogystal yn un o ddwy iaith swyddogol y Cenhedloedd Unedig, y Cyngor Ewropeaidd, y Gemau Olympaidd. Y mae hefyd yn brif iaith ym myd technoleg, busnes, cyfathrebu ac ymchwil meddygol.
Ym marn rhai, nid oes yna le i Ieithoedd Modern yn ein gwlad ni, fodd bynnag...

**Dyma'r sefyllfa yng Nghymru:**

| |
|---|
| Mae 19% o gwmnïau'n colli busnes oherwydd prinder sgiliau iaith. |
| Wyneba 20% o fusnesau anawsterau diwylliannol. |
| Wrth fasnachu dramor wyneba 42% o gwmnïau rwystrau ieithyddol oherwydd methiant i gyfathrebu yn iaith y prynwr/gwerthwr |



## Y CWRS TGAU FFRANGEG

- Cewch gyfle i ddatblygu eich sgiliau cyfathrebu ymhellach.
- Astudir themâu byrlymus, hwylus e.e. twristiaeth, y cyfryngau, yr amgylchfyd…
- Byddwn yn defnyddio nifer o ddulliau dysgu, gan gynnwys Technoleg Gwybodaeth, Fideo gynadledda, Gemau Iaith, Chwarae Rôl ac ati.
- **Asesu: Gwrando 25%   Siarad 25%   Darllen 25%   Ysgrifennu 25%.**

# Lefel 1/ 2 mewn Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig

Mae'r cwrs yma yn rhoi cyfle i ddisgyblion sy'n mwynhau'r profiad o weithio'n ymarferol i ddatblygu ystod o sgiliau sydd a galw mawr amdanynt. Mae'r cwrs yn arwain at gymhwyster Lefel 2.

Mae'r cwrs yn un ymarferol iawn a chewch gyfleoedd i ddatblygu eich sgiliau ymarferol.

Bydd eich gwaith yn cael ei asesu trwy bortffolio, ac mae llwybr gyrfa bendant medrwch ei ddilyn.

Mae'r cwrs yn cynnwys sesiynau ymarferol a theori. Cynhelir y sesiynau ymarferol mewn gweithdai â'r holl gyfarpar gofynnol. Mae sesiynau theori yn rhoi gwybodaeth a dealltwriaeth greiddiol i gefnogi sesiynau ymarferol.

**Cynllunio, gwneud, adolygu**

Mae Dyfarniad Lefel 1 / 2 Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig wedi ei ddylunio o amgylch y cysyniad o 'gynllunio, gwneud, adolygu' at ddysgu. Mae hyn yn adlewyrchu nifer o weithgareddau'n ymwneud â gwaith mewn diwydiant adeiladu ac yn caniatáu i addysgu ddigwydd mewn ystod o gyd-destunau. Mae'r ymagwedd hon yn galluogi ymgeiswyr i gymhwyso ac ehangu eu dysgu



# Lefel 1/2 mewn Busnes Adwerthu

**Pam Astudio Busnes Adwerthu?**

Mae'r cymwysterau Dyfarniad a Thystysgrif Lefel 1 / 2 Busnes Adwerthu yn cyflwyno dysgwyr i un o sectorau cyflogaeth fwyaf pwysig y DU, sy'n cyflogi dros 10% o'i weithlu. Bydd ymgeiswyr yn cael y cyfle i archwilio agweddau amrywiol ar fusnes adwerthu ac ymchwilio i adwerthwyr yn amrywio o siopau cadwyn fawr a siopau adrannol i siopau annibynnol a siopau rhith. Mae'r profiad dysgu yn canolbwyntio ar ddysgu cymhwysol, sy'n caniatáu i fyfyrwyr gymhwyso'u gwybodaeth, eu sgiliau a'u dealltwriaeth trwy dasgau wedi'u gosod mewn cyd-destun busnes adwerthu a allai gynnwys nifer o nodweddion gwaith go iawn.

**Asesu**

| Uned | Teitl | Asesiad | % |
|---|---|---|---|
| 1 | Busnes adwerthu | Arholiad Allanol | 40 |
| 2 | Gwasanaeth i gwsmeriaid ar gyfer busnes adwerthu | Gwaith Cwrs Mewnol | 30 |
| 3 | Marsiandïo a marchnata cynhyrchion adwerthu | Gwaith Cwrs Mewnol | 30 |

**Manteision i Ddysgwyr**

- ✓ Datblygu ystod o sgiliau ymarferol ac academaidd, trwy ddysgu cymhwysol a fydd yn ddefnyddiol yn y gweithle ac ar gyfer dysgu yn y dyfodol
- ✓ Darparu gwybodaeth sylfaenol am fusnes adwerthu a fydd yn helpu dysgwyr i symud ymlaen at astudiaeth bellach neu gamu i mewn i'r gweithle
- ✓ Ysgogi dysgwyr trwy dasgau pwrpasol wedi'u gosod mewn cyd-destunau



# BTEC LEFEL 2 ARWEINYDDIAETH DRWY CHWARAEON

**Hyd y cwrs: 2 flynedd**
**Mae'r cwrs yn cyfateb i 2 TGAU: A*-C**



## PAM ASTUDIO BTEC CHWARAEON??

- Mae'n gymhwyster galwedigaethol lefel 2 sydd yn benodol i chwaraeon, ac sydd yn adnabyddus yn genedlaethol.
- Bydd tystiolaeth asesu yn gallu cael eu cynhyrchu drwy amrywiaeth o weithgareddau, gan gynnwys gwaith cwrs, asesiad yn y lle gwaith, chwarae rôl neu gyflwyniad llafar.

**Ni fydd rhaid sefyll arholiadau.**

- Bydd y cwrs yn darparu gwybodaeth, deallusrwydd a sgiliau penodol sydd yn angenrheidiol ar gyfer cyflogaeth o fewn y sector chwaraeon ee. arweinyddiaeth chwaraeon, diwydiant hamdden ac adloniant.
- Bydd y cwrs yn cynnig cyfleoedd i ddatblygu amrywiaeth o sgiliau a thechnegau, rinweddau personol ac agweddau angenrheidiol tuag at berfformiad llwyddiannus yn y byd gwaith.
- **Bydd y cymhwyster o gymorth wrth symud ymlaen i astudio cymwysterau pellach – BTEC Cenedlaethol ym mlwyddyn 12/13 (cyfateb i 1 Lefel A).**

## STRWYTHUR Y CWRS A DULLIAU ASESU

| CYNNWYS – 3 UNED | ASESU |
|---|---|
| ✓ UNED 1 – CYNLLUNIO AC ARWAIN GWEITHGAREDDAU CHWARAEON | Er mwyn pasio yr uned mae rhaid cyflwyno pob canlyniad dysgu ar gyfer yr uned.<br>Mae'r meini prawf graddio yn cynnwys:<br>▪ Gradd sylfaenol: C TGAU<br>▪ Gradd deilyngdod: B TGAU<br>▪ Gradd anrhydedd: A/A* TGAU |
| ✓ UNED 2 – YMWYBYDDIAETH TECHNEGOL A THACTEGOL AR GYFER CHWARAEON | |
| ✓ UNED 3 – DULL O FYW A'R PERFFORMIWR CHWARAEON | |

# Lefel 1/2 mewn Lletygarwch ac Arlwyo

**Dyma'r cwrs i chi os oes gennych diddordeb mewn cynllunio, paratoi , coginio a gweini bwyd i safon uchel.**

Cynlluniwyd y cwrs hwn er mwyn cyflwyno'r disgyblion i'r Diwydiant Arlwyo a Lletygarwch. Bydd cyfle i ddatblygu sgiliau paratoi a choginio bwyd yn ogystal â datblygu sgiliau trosglwyddadwy megis, datrys problemau, hunan-drefn, rheoli amser , cynllunio a sgiliau cyfathrebu.
Gall hefyd ddarparu sail i'r ymgeiswyr hynny sydd am astudio'r pwnc ymhellach. Bydd yna ymweliadau yn cael eu trefnu a chogyddion yn cael eu gwahodd i'r ysgol.

**Mae gwaith ymarferol yn rhan hanfodol o'r cwrs.**



**Manylion y cwrs**
Rhennir cynnwys y cwrs mewn i ddau faes gorfodol o astudiaeth.

**Uned 1 Y  Diwydiant Lletygarwch ac Arlwyo**

Meysydd Astudio.

- Y Diwydiant Lletygarwch.
- Swyddi, cyflogaeth a hyfforddiant.
- Iechyd, diogelwch a hylendid.
- Maeth a chynllunio bwydlenni.
- Costio a rheoli cyfrannau.
- Offer arbenigol.
- Cyfathrebu a chadw cofnodion.
- Ystyriaethau amgylcheddol.

**Uned 2 Y Diwydiant Lletygarwch ac Arlwyo ar waith**

Mae'r uned yma yn canolbwyntio ar sgiliau paratoi coginio a gweini bwyd

- Dysgu am bwysigrwydd maeth a sut mae dulliau coginio yn gallu effeithio ar werth maethol.
- Cynllunio bwydlenni.

**Cynllun  Asesu**

Arholiad papur ysgrifenedig  - 80 munud o hyd (40%)

Asesiad o waith ymarferol o dan rheolaeth (60%)



## CBAC
## Dyfarniad Lefel 1/2

# Level 2 Technoleg Gwybodaeth



PAM DEWIS LEFEL 1/2 DYFARNIAD GALWEDIGAETHOL MEWN

## TGCH?

cbac
wjec

Ydych chi'n frwdfrydig am dechnoleg? Ydych chi'n hoffi datrys problemau? Ydych chi'n chwilfrydig am unrhyw beth sy'n ddigidol, ac eisiau dysgu sgiliau newydd gwych? Os felly, mae'n bryd darganfod eich potensial – dewch i wybod mwy am y cymhwyster cyffrous hwn heddiw!

### BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?

Mae'r cymhwyster yn cynnwys 2 uned:

**Uned 1: TGCh yn y Gymdeithas**

Byddwch chi'n:

- Archwilio'r amrywiaeth eang o ddefnyddiau o galedwedd, cymhwysiad a meddalwedd arbenigol yn y gymdeithas.
- Ymchwilio i sut mae technoleg gwybodaeth yn cael ei defnyddio mewn amrywiaeth o gyd-destunau, gan gynnwys busnesau a sefydliadau, addysg ac mewn cartrefi

**Uned 2: TGCh mewn Cyd-destun**

- Meithrin gwybodaeth ymarferol am gronfeydd data, taenlenni, dogfennau a delweddau wedi'u hawtomeiddio
- Dysgu i gymhwyso eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth i ddatrys problemau mewn lleoliadau galwedigaethol.

### SUT BYDDAF YN CAEL FY ASESU?

Byddwch chi'n cael eich asesu drwy gyfuniad o arholiadau ac asesiadau dan reolaeth.

Bydd Uned 1 yn cael ei hasesu drwy arholiad sy'n werth 40% o'ch cymhwyster. Bydd yr arholiad yn 1 awr a 20 munud o hyd, a bydd yn cynnwys cwestiynau ymateb byr ac estynedig.

Bydd Uned 2 yn cael ei hasesu gan ddefnyddio gwaith project (nid arholiad) sy'n werth 60% o'ch cymhwyster. Fel rhan o'r asesiad hwn, byddwch chi'n cael senario a bydd angen i chi wneud nifer o dasgau.

### PA SGILIAU FYDDAF YN EU DATBLYGU?

Byddwch chi'n datblygu nifer o sgiliau sy'n atyniadol i gyflogwyr, colegau a phrifysgolion, gan gynnwys:

- Cyfathrebu
- Cymryd cyfrifoldeb
- Datrys problemau
- Dylunio, rhaglennu, profi a gwerthuso systemau meddalwedd
- Dysgu'n annibynnol
- Meddwl yn feirniadol
- Rheoli amser
- Rhifedd a thrin data
- Ymchwil
- Ymdopi â newidiadau cyflym mewn technoleg

### GYRFAOEDD YM MAES TGCH?

Mae'r diwydiant TGCh yn cynnig amrywiaeth eang o gyfleoedd cyffrous, sy'n cynnwys y canlynol:

- Cynhyrchydd cynnwys digidol
- Dadansoddwr data
- Peiriannydd systemau
- Rheolwr marchnata gwe

DEWCH I WYBOD MWY: SIARADWCH Â'CH ATHRO HEDDIW!

Ewch ar Instagram i gael yr awgrymiadau a'r cyngor diweddaraf

@cbacifyfyrwyr

# Lefel 2 mewn Twristiaeth

**Pam astudio Twristiaeth?**

Y diwydiant Hamdden a Thwristiaeth yw'r diwydiant mwyaf ar y blaned, ac mae'n un o'r diwydiannau sy'n tyfu gyflymaf yn y Byd. Mae'r diwydiant yn cyflogi dros 1.5 miliwn o bobl yn y Deyrnas Unedig. Mae'n cynhyrchu miliynau o bunnoedd i economi'r Deyrnas Unedig. Mae'r rhan fwyaf o bobl yn cymryd rhan yng ngweithgareddau hamdden a thwristiaeth e.e. mynd i barc adloniant fel 'Oakwood' neu 'Alton Towers', neu dreulio pythefnos yng nghyrchfan lan y môr yn Sbaen.

**Gyrfaoedd a dilyniant i'r cwrs**

Gall y cymhwyster yma fod o gymorth wrth symud ymlaen i astudio cymwysterau pellach fel Teithio a Thwristiaeth Lefel U/UG. Mae'r cwrs hefyd yn darparu'r sgiliau hanfodol sydd angen ar gyfer gweithio o fewn y diwydiant hamdden a thwristiaeth. Dyma rhai o'r swyddi posib o fewn y diwydiant hamdden a thwristiaeth: - rheolwr gwesty, gweithio yn y diwydiant iechyd a phrydferthwch, swyddi sy'n ymwneud â gweithgareddau plant, swyddi o fewn y diwydiant chwaraeon a gweithio fel asiant deithio.

**Cyfleoedd ar y cwrs**

O ganlyniad i natur a chynnwys y cwrs, mae'r rhan helaeth o'r gwaith ymchwil, gwaith dosbarth a'r asesiadau yn cael eu cwblhau ar gyfrifiaduron. Er mwyn datblygu dealltwriaeth o unedau penodol, mae yna nifer o ymweliadau lleol hefyd yn rhan o'r cwrs.

**Cynnwys y cwrs ac asesiad**

Mae yna tair uned o fewn y cwrs T.G.A.U. Hamdden a Thwristiaeth:-

| Uned | Asesiad |
|---|---|
| **Uned 1**<br>Profiad y Cwsmer<br><br>**Uned 3**<br>Datblygu Cyrchfannau i Dwristiaid yn y DU | *Asesiad o dan reolaeth - (60%)*<br>Ymchwiliad i ansawdd profiad y cwsmer o fewn sefydliadau twristiaeth.<br>Sut mae diwallu anghenion cwsmeriaid a'r amgylchedd busnes y mae sefydliadau twristiaeth yn gweithredu o'i fewn er mwyn argymell sut y gellid gwella cyrchfannau er mwyn ychwanegu at eu hapêl a'u poblogrwydd. |
| **Uned 2**<br>Busnes Twristiaeth | *Arholiad allanol – 1¼awr (40%)*<br>Adolygiad o'r opsiynau ar gyfer atebion busnes ar gyfer amrywiaeth o broblemau y mae sefydliadau twristiaeth yn eu hwynebu. |

| Asesiadau T.G.A.U. Hamdden a Thwristiaeth | |
|---|---|
| Asesiad o dan reolaeth | 60% |
| Arholiad allanol | 40% |



# Tystysgrif Lefel 2 Agored Cymru mewn Dysgu yn yr Awyr Agored

**Pam astudio dysgu yn yr awyr agored?**
Mae'r cwrs lefel 2 yn rhoi pwyslais ar waith cwrs sydd gwerth 100%. Nod y gyfres o gymwysterau Dysgu yn yr Awyr Agored yw gwella datblygiad cymdeithasol, corfforol, creadigol, diwylliannol a phersonol pobl ifanc ac oedolion yn gyfannol drwy ddysgu arbrofol yn yr awyr agored.
Mae’r cymwysterau yn cefnogi'r dyhead am Gymru egnïol, iach a chynhwysol, lle mae dysgu yn yr awyr agored yn darparu llwyfan cyffredin ar gyfer cyfranogiad, hwyl, cyflawniad a chyflogaeth, gan gynyddu'r ddealltwriaeth o’r amgylchedd, yr iaith Gymraeg a threftadaeth ddiwylliannol a dyfodol Cymru.
Maent yn rhoi cyfleoedd i fwy o bobl ifanc yng Nghymru i gyflawni eu dichonolrwydd drwy weithgareddau a dysgu yn yr awyr agored, ac i ennill cymhwyster gwerthfawr ac achrededig sy’n hyrwyddo dilyniant.
Mae’r cymwysterau hyn yn diwallu anghenion Cwricwlwm i Gymru Llywodraeth Cymru ar draws pob maes dysgu a phrofiad, ac yn darparu cyfwerth o gradd B ar lefel TGAU.

**Gofynion Mynediad**
Nid oes gofynion mynediad penodol ar gyfer y cymwysterau hyn, sydd wedi eu hystyried yn addas ar gyfer dysgwyr cyn-16.

**Strwythur a chynnwys**
Mae cymwysterau Dysgu yn yr Awyr Agored ar gael fel Tystysgrif (19 credyd).
Rhaid cyflawni 3 credyd o’r Unedau Gorfodol, a gweddill y credydau i’w cyflawni o’r Unedau Dewisol.

**Unedau Gorfodol**
Diogelwch Personol wrth Ddysgu yn yr Awyr Agored
Defnyddio Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy



**Unedau Dewisiol**
Gweithio mewn Tîm
Sgiliau Crefft Gwersyll
Cymryd Rhan mewn Taith yn yr Awyr Agored
Cymryd Rhan mewn Gweithgaredd ar y Tir
Cymryd Rhan mewn Gweithgaredd Dŵr
Defnyddio Map a Chwmpawd

**Cyfleoedd Datblygu**
Mae’r cymhwyster hwn yn cefnogi dilyniant i gymwysterau yn y meysydd canlynol:

- Hyfforddi
- Ymarferwyr Dysgu yn yr Awyr Agored
- Coedwigaeth
- Ffermio
- Twristiaeth

# Coleg Gŵyr Rhaglenni 14-16
# VTCT Tystysgrif Lefel 2 mewn Sgiliau Gwallt a Harddwch




## VTCT Tystysgrif Lefel 2 mewn Sgiliau Gwallt a Harddwch (VRQ)

### Trosolwg o'r cwrs

Bwriedir y cymhwyster hwn i ddysgwyr sydd am archwilio eu diddordeb yn y Sector Gwallt a Harddwch. Prif bwrpas VTCT Tystysgrif Lefel 2 mewn Sgiliau Gwallt a Harddwch (VRQ) yw eich paratoi i symud ymlaen i'r lefel nesaf o ddysgu galwedigaethol a'ch paratoi ar gyfer rôl swydd benodol prentis trin gwallt neu therapi harddwch.

### Cynnwys y cwrs

Mae'r cymhwyster hwn yn cynnwys yr holl elfennau gofynnol i ddatblygu'ch sgiliau gwallt a harddwch ymarferol. Gall unedau gynnwys: peintio wynebau sylfaenol, celf ewinedd sylfaenol, siapio aeliau, gofal croen sylfaenol, colur ffotograffig sylfaenol, trin dwylo sylfaenol, sychu gwallt a gorffennu gwallt, technegau troelli sylfaenol, siampŵio a thrin gwallt, plethu a throelli gwallt sylfaenol, lliwio gwallt gan ddefnyddio lliw lled-barhaol.

### Sut mae'r cwrs yn cael ei asesu?

Cesglir eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth yn yr unedau hyn mewn portffolio o dystiolaeth. Bydd eich asesydd yn rhoi arweiniad i chi ar hyn. Efallai y bydd eich asesydd hefyd yn gofyn cwestiynau i gadarnhau eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth. Bydd eich asesydd hefyd yn arsylwi'ch perfformiad ymarferol mewn un asesiad. Bydd eich gradd yn cael ei phennu trwy gyflawni meini prawf asesu a chyflawni safonau perfformiad ychwanegol.

# Tirlunio ac Eco-adeiladu
# Yng Ngholeg Gŵyr Abertawe

Coleg Gŵyr Abertawe
Gower College Swansea



Ar y cwrs hwn bydd disgyblion yn dod i'r Coleg unwaith yr wythnos am 2.5 awr. Byddan nhw'n astudio mewn amgylchedd awyr agored ymarferol os bydd y tywydd yn caniatáu.

Mae'r addysgu yn seiliedig ar brosiectau a datblygu sgiliau. Er enghraifft, gosod llwybrau, adeiladu pergolas, trin y tir a gwaith cynnal a chadw yn yr ardd.

Bydd disgyblion yn ennill cymhwyster City & Guilds Dyfarniad L1 mewn Sgiliau Ymarferol Garwddwriaeth.

Bydd disgyblion yn dysgu sut i ddefnyddio cyfarpar ac offer e.e. peiriannau torri gwair, chwythu dail, a strimio, mewn modd diogel a phriodol.

Cyfleoedd i greu gwrthrychau gardd – celfi, blychau plannu, murluniau, eitemau addurniadol.

Er diogelwch bydd yr holl ddisgyblion yn gwisgo cyfarpar diogelu personol e.e. esgidiau diogelwch, oferôls, menig, sy'n briodol i bob gweithgaredd.